

# Pennu Amcanion Llesiant – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Blwyddyn Archwilio: 2023-24.

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4502A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mewn achos o dderbyn cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys

Cefndir: ein harchwiliadau o bennu amcanion llesiant	4
Cynnal ein harchwiliad yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	5
Sut a phryd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gosod ei amcanion llesiant	5
Yr hyn a ddarganfuwyd: mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant, ond mae cyfleoedd i adeiladu ar sut mae'n cynnwys dinasyddion a sut mae'n bwriadu gweithio gyda phartneriaid	7
Atodiadau	
Atodiad 1: Cwestiynau allweddol a'r hyn yr ydym yn chwilio amdano	10

## Cefndir: ein harchwiliadau o bennu amcanion llesiant

- 1 O dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae dyletswydd ar yr Archwilydd Cyffredinol i archwilio i ba raddau y mae'r cyrff cyhoeddus a gwmpesir gan y Ddeddf, wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni<sup>1</sup>.
- 2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn gosod 'dyletswydd llesiant' ar 48 o gyrff cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff hynny osod a chyhoeddi 'amcanion llesiant' sydd wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'u cyfraniad at gyflawni pob un o saith nod llesiant cenedlaethol y Ddeddf.<sup>2</sup> Rhaid iddynt hefyd gymryd pob cam rhesymol, wrth arfer eu swyddogaethau, i gyflawni'r amcanion hynny.
- 3 Mae gwneud rhywbeth yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu gweithredu 'mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i gorff cyhoeddus ystyried y pum ffordd o weithio: hirdymor, integreiddio, cyfranogi, cydweithio ac atal.<sup>3</sup>
- 4 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliad ym mhob corff o leiaf unwaith dros bob cyfnod adrodd pum mlynedd, y cyfnod adrodd cyfredol yw Mai 2020 i fis Mai 2025.<sup>4</sup>
- 5 Gwnaethom lunio fframwaith asesu i'n galluogi i asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant. Mae **Atodiad 1** yn nodi rhagor o wybodaeth am ein dull gweithredu, gan gynnwys set o 'ddangosyddion cadarnhaol' sy'n dangos sut beth allai da edrych.
- 6 Wrth ddylunio ein dull gweithredu, gwnaethom ystyried yr hyn y gallem ei ddisgwyl yn rhesymol gan gyrff cyhoeddus ar yr adeg hon. Dylai cyrff cyhoeddus nawr fod yn gyfarwydd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r ffyrdd o weithio a cheisio eu cymhwyso mewn ffordd ystyrlon. Ar yr un pryd, rydym yn gwerthfawrogi bod cyrff cyhoeddus yn dal i ddatblygu eu profiad wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod amcanion llesiant. Felly, mae'r archwiliadau'n cynnwys

---

<sup>1</sup> Adran 15 (1) (a) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

<sup>2</sup> Y saith nod llesiant cenedlaethol yw Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru fwy cyfartal, Cymru fwy cydlynus, Cymru o gymunedau cydlynol, Cymru o ddiwylliant bywiog a Chymraeg ffyniannus, a Chymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

<sup>3</sup> Adran 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

<sup>4</sup> Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau dros y cyfnod a nodir yn y Ddeddf, sy'n dechrau flwyddyn cyn etholiad y Senedd ac sy'n dod i ben flwyddyn ac un diwrnod cyn etholiad y Senedd ganlynol.

ystyried sut mae cyrff cyhoeddus yn cymhwyso eu dysgu a sut y gallant wella yn y dyfodol.

## Cynnal ein harchwiliad yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

- 7 Nod yr archwiliad hwn oedd asesu i ba raddau y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant.
- 8 Cynlluniwyd yr archwiliad i helpu:
  - rhoi sicrwydd i'r graddau y mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant; a
  - nodi cyfleoedd i ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhellach wrth bennu amcanion llesiant yn y dyfodol.
- 9 Aethom ati i ateb y cwestiwn 'i ba raddau y mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant newydd?'. Rydym wedi gwneud hyn drwy archwilio'r cwestiynau canlynol:
  - A oedd y broses a roddwyd ar waith gan y Cyngor i osod ei amcanion llesiant wedi'u seilio ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy?
  - A yw'r Cyngor wedi ystyried sut y bydd yn sicrhau y gall gyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?
  - A yw'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau i fonitro cynnydd a gwella sut mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant?
- 10 Gwnaethom gyflwyno'r darn hwn o waith i ddechrau drwy ein cyfarfodydd cyswllt rheolaidd â swyddogion yn ystod y Gwanwyn/Haf 2023. Daeth y gyfres olaf o gyfweiliadau i ben ym mis Mai 2024.
- 11 Gwnaethom gasglu ein tystiolaeth drwy adeiladu ar waith yr Asesiad Sicrwydd a Risg. Ychwanegwyd at hyn yn y ffyrdd canlynol:
  - adolygu dogfennau allweddol;
  - grŵp ffocws gyda graddedigion; a
  - chynnal nifer fach o gyfweiliadau gyda swyddogion ac Aelodau.

## Sut a phryd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gosod ei amcanion llesiant

- 12 Dechreuodd y Cyngor ar y gwaith o bennu ei amcanion llesiant yn ystod 2022. Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion llesiant ym mis Mawrth 2023. **Mae Arddangosiad 1** yn nodi'r amcanion llesiant hynny.

## Arddangosyn 1: Amcanion Llesiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2023-28.

Bwrdeistref Sirol lle rydym yn amddiffyn ein mwyaf bregus

Bwrdeistref Sirol gyda gwaith teg, medrus, swyddi a threfi ffyniannus

Bwrdeistref Sirol gyda chymunedau ffyniannus y Cymoedd

Bwrdeistref Sirol lle rydym yn helpu pobl i gyflawni eu potensial

Bwrdeistref Sirol sy'n ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur

Bwrdeistref Sirol lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu clywed ac yn rhan o'u cymuned

Bwrdeistref Sirol lle rydym yn cefnogi pobl i fyw bywydau iach a hapus

13 Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion llesiant fel rhan o'i Gynllun Corfforaethol 2023-2028 (y Cynllun) sydd ar gael i'w gweld ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. O dan y Ddeddf, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus gael datganiad llesiant. Nid oes angen i hon fod yn ddogfen ar wahân a gellir ei chynnwys yng nghynllun corfforaethol corff cyhoeddus (neu gyfwerth). Mae Cynllun Corfforaethol 2023-28 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr hefyd yn gweithredu fel datganiad llesiant y Cyngor. Mae'n cynnwys llawer o'r gofynion deddfwriaethol, fodd bynnag, nid yw pob elfen yn cael eu cynnwys yn llawn, fel a ganlyn:

- pam mae'r corff cyhoeddus yn ystyried ei fod wedi gosod amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a
- sut mae'n bwriadu sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu bob blwyddyn er mwyn cymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

## Yr hyn a ganfuom: mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant, ond mae cyfleoedd i adeiladu ar sut mae'n cynnwys dinasyddion a sut mae'n bwriadu gweithio gyda phartneriaid

### Canfyddiadau

- 14 Mae'r Cyngor wedi defnyddio ystod o ffynonellau data i ddatblygu ei ddealltwriaeth o'r angen cyfredol, gan gynnwys adolygiad o amcanion llesiant cyrff eraill y sector cyhoeddus ledled Cymru, ymarfer hunanasesu ac adolygiadau o'i wybodaeth am berfformiad. Bydd hyn yn helpu i ganolbwyntio gweithgarwch ar effeithiau ehangach ei amcanion llesiant i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.
- 15 Nid yw'r Cynllun yn nodi sut mae'n bwriadu gweithio gyda phartneriaid i gyflawni ei amcanion llesiant. Nid oes llawer o gyfeiriad yn y Cynllun at weithgarwch cydweithredol gyda'i bartneriaid a'i randdeiliaid i roi syniad o faint y mae'n gweithio'n ehangach ar draws ffiniau'r sector cyhoeddus. Er enghraifft, nid oes sôn am gyfraniad y Cyngor at weithio rhanbarthol ar draws y tri chyngor o fewn yr hyn sydd bellach yn Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg (BGC). Fel aelod o'r BGC rhanbarthol hwn, mae'r Cyngor yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi cyflawni ei Gynllun Llesiant 2023-28. Mae hyn yn crynhoi gwaith cydweithredol o fewn cymunedau a chymdogaethau sy'n cefnogi cyflawni amcanion llesiant y Cyngor.
- 16 Defnyddiodd y Cyngor ystod o fecanweithiau i ymgysylltu â'i ddinasyddion i helpu i lunio ei amcanion llesiant gan gynnwys y Cyngor leuenctid a Fforwm y Cyngor Tref a Chymuned. Roedd y rhain yn cynnwys ymgynghoriad cyllideb ar-lein a oedd yn derbyn 1,441 o ymatebion, panel dinasyddion, arolygon staff ac ymgysylltu ag undebau llafur. Mae hyn yn dilyn ymrwymiad y Cynllun i weithio'n agosach gyda phobl a chymunedau lleol. Er ei bod yn gadarnhaol bod y Cyngor wedi ymgynghori ar y gyllideb a'r amcanion lles ar yr un pryd, mae lle i'r Cyngor gynnwys cymunedau lleol wrth lunio'r amcanion llesiant yn gynharach.
- 17 Ynghyd â'r Cynllun Corfforaethol cafwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA). Torrodd hyn ymatebion yr ymgynghoriad gan nodwedd warchoddedig ond ni ddadansoddodd y data i nodi'r gwahaniaethau hyn yn ôl amcan lles i ddarparu gwybodaeth fwy penodol am effeithiau posibl ar gyfer pob amcan llesiant.
- 18 Ymhellach, argymhellodd yr AEA y dylid cynnal dadansoddiad cynhwysfawr a manwl o gydraddoldeb i sicrhau bod cyfleoedd i wella cydraddoldeb yn cael eu defnyddio, ac unrhyw effeithiau neu rwystrau negyddol posibl ar gyfer grwpiau penodol yn cael eu hystyried, ac os yn bosibl eu lliniaru'. Canfuom nad yw'r dadansoddiad hwn yn benodol ceisio gwell dealltwriaeth o anghenion ei wahanol

gymunedau a chyrraedd amrywiaeth lawn y boblogaeth wedi digwydd. Mae hyn yn golygu, wrth ddewis yr amcanion llesiant, nad oedd gan y Cyngor ddealltwriaeth lawn o'r effeithiau y bydd pob amcan llesiant yn eu cael ar amrywiaeth lawn ei boblogaeth.

- 19 Mae'r Cyngor wedi cynllunio ei amcanion i ganolbwyntio ar gyflawni gwelliannau hirdymor ac mae wedi gwneud cysylltiadau penodol rhwng yr amcanion a'r Nodau Cenedlaethol Llesiant. Mae'r manylion tymor byrrach yn cael eu rhannu'n gynllun cyflawni blynyddol sy'n galluogi'r Cyngor i gynllunio sut y bydd ei amcanion yn cael eu gweithredu ac i adrodd ar gynnydd wrth eu bodloni yn y tymor byr.
- 20 Mae Cynlluniau Busnes Cyfarwyddiaeth y Cyngor hefyd yn cefnogi cyflawni ei Gynllun Corfforaethol a'i amcanion llesiant. Mae pob cynllun yn nodi set o nodau, sy'n cyd-fynd ag amcanion llesiant. Mae gan bob nod set o fesurau neu ymrwymadau perfformiad sy'n cynnwys targedau a swyddog cyfrifol. Mae Cynlluniau Busnes y Gyfarwyddiaeth hefyd yn cynnwys dangosyddion perfformiad a phrosiectau sy'n cyd-fynd â ffyrdd y Cyngor o weithio a Chynllun Cyflawni blynyddol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw fesurau perfformiad allweddol yn y Cynllun Corfforaethol i helpu dinasyddion i ddeall sut y bydd y Cyngor yn mesur cynnydd.
- 21 Mae'r Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2024-2028 (MTFP) wedi'u halinio. Maent yn cael eu trafod a'u cytuno gyda'i gilydd gan y Cabinet yn flynyddol ac mae Amcanion Lles y Cyngor yn rhan allweddol o'i MTFP. Mae tystiolaeth bellach bod y Cyngor yn darparu adnoddau i gyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Er enghraifft, mae wedi gweithio i ddeall sut y gall ddarparu adnoddau ar gyfer un o'i phwysau cyllideb mwyaf arwyddocaol yn y cynllun 3 blynedd 'Pen-y-bont ar Ogwr Think Family Improve Outcomes – cynaliadwyedd o fewn Gofal Cymdeithasol Plant'. Os cânt eu cyflawni, bydd y nodau allweddol yn cael manteision ataliol tymor canolig, ond nid yw'r rhain wedi'u costio'n llawn eto.
- 22 Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn i fonitro cynnydd wrth gyflawni ei amcanion llesiant. Mae'n monitro ei berfformiad bob chwarter trwy ei gyfarfodydd Asesiad Perfformiad Corfforaethol (CPA), a fynychir gan Aelodau'r Cabinet, Bwrdd Rheoli Corfforaethol, Penaethiaid Gwasanaeth, Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu, ac Arweinwyr Grŵp. Mae'r Cyngor hefyd yn cyflwyno cynnydd ar ffurf dangosfyrddau monitro perfformiad i'w Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol dair gwaith y flwyddyn. Mae'r cyflwyniadau'n cynnig cymysgedd o ddangosyddion perfformiad ac ymrwymadau sy'n cyd-fynd ag amcanion llesiant a gefnogir gan fesurau meintiol a rhai mesurau ansoddol sydd â'r bwriad o wella canlyniadau i ddinasyddion.
- 23 Mae'r Cyngor wedi dangos hunanymwybyddiaeth ac ymrwymiad i ddysgu. Er enghraifft, wrth ddysgu gan eraill, mae wedi datblygu cynllun cyflawni blynyddol ar gyfer ei amcanion lles yn ddiweddar, wedi datblygu fframwaith rheoli perfformiad newydd a chryfhau cysylltiadau rhwng ei Gynlluniau Corfforaethol a Chyfarwyddiaeth. Fodd bynnag, nid oes proses ffurfiol ar gyfer annog ac yna cipio canlyniadau o ymarferion a ddysgwyd. Er enghraifft, gwersi o ymarferion



ymgysylltu blaenorol neu efallai i fyfyrion ar ba mor dda y mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar y broses gosod amcanion llesiant ehangach.

## Argymhellion

### Argymhellion–

- A1** Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn cwmpasu'r ystod lawn o ofynion statudol wrth ddatblygu ei ddatganiad llesiant nesaf, gan gynnwys:
- sut y mae'n ystyried ei fod wedi gosod amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; a
  - sut mae'n bwriadu sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu bob blwyddyn er mwyn cymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.
- A2** Dylai'r Cyngor adeiladu ar ei ddull presennol o ymgysylltu drwy ystyried ffyrdd i:
- tynnu ar farn dinasyddion i lywio'r gwaith o ddatblygu'r amcanion llesiant yn gynnar; a
  - sicrhau ei fod yn cynnwys amrywiaeth lawn y boblogaeth.
- A3** Dylai'r Cyngor nodi'n glir yn y cynllun corfforaethol sut mae'n bwriadu gweithio gyda phartneriaid i gefnogi cyflawni ei amcanion llesiant.

# Atodiad 1

## Y cwestiynau allweddol a'r hyn yr ydym yn chwilio amdano.

Mae'r tabl isod yn nodi'r cwestiwn yr oeddem yn ceisio ei ateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â rhai is-gwestiynau i arwain ein casglu tystiolaeth. Mae hefyd yn cynnwys rhai 'dangosyddion cadarnhaol' sydd wedi'u teilwra i'r archwiliad hwn, wedi'u haddasu o'r rhai yr ydym wedi'u defnyddio o'r blaen i lywio ein harchwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy. Nid rhestr wirio yw'r rhestr hon, ond yn hytrach set o nodweddion darluniadol sy'n disgrifio sut beth allai da edrych.

## I ba raddau y mae'r corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant newydd?

Cynllunio: A oedd y broses a roddwyd ar waith gan y corff i osod ei amcanion llesiant yn seiliedig ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy?

**A yw'r corff wedi defnyddio data a gwybodaeth arall i ddeall anghenion, risgiau a chyfleoedd a sut y gallent newid dros amser?**

### Dangosyddion positif

- Mae gan y Cyngor asesiad clir a chytbwys o'r cynnydd yn erbyn amcanion llesiant blaenorol a ddefnyddiwyd i lywio dealltwriaeth y corff o'r angen 'fel y mae'/tymor byr'.
- Mae'r Cyngor wedi gosod amcanion llesiant yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda o angen, risg a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddi tueddiadau'r dyfodol. Mae'n debygol y bydd hyn yn cael ei dynnu o amrywiaeth o ffynonellau lleol a chenedlaethol, megis:
  - Aseidiadau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
  - Aseidiadau poblogaeth Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol
  - Canlyniadau ymarferion ymwneud / ymgynghori lleol
  - Monitro a chwynion gwasanaeth.
  - Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol
  - Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol Cyfoeth Naturiol Cymru (SoNaRR) ar gyfer Aseidiadau Cymru ac Ardaloedd
- Mae'r Cyngor wedi ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel y gall fynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau pontio'r cenedlaethau trwy ei amcanion llesiant.

<p><b>A yw'r Cyngor wedi cynnwys eraill i ddatblygu ei amcanion llesiant?</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Cyngor yn defnyddio canlyniadau cyfranogiad i helpu i ddewis ei amcanion llesiant. Mae'r ymglymiad hwnnw - boed yn gynradd, eilaidd neu'n gyfuniad - yn adlewyrchu amrywiaeth lawn y boblogaeth.</li> <li>• Mae cyfranogiad yn adlewyrchu arfer da a chyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.</li> </ul>
<p><b>A yw'r Cyngor wedi ystyried sut y gall yr amcanion wella llesiant a chael effaith eang?</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r amcanion llesiant wedi'u cynllunio i wella llesiant yn yr ystyr ehangaf a gwneud cyfraniad ar draws y saith nod llesiant cenedlaethol.</li> <li>• Mae'r amcanion llesiant wedi'u cynllunio i adlewyrchu a manteisio ar y cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd gwaith.</li> <li>• Mae dealltwriaeth ddatblygedig o sut mae'r amcanion llesiant yn effeithio ar, neu'n ymwneud â'r hyn y mae cyrff cyhoeddus eraill yn ceisio ei gyflawni a chyfleoedd i weithio gyda'i gilydd.</li> </ul>
<p><b>A yw'r Cyngor wedi cynllunio'r amcanion i sicrhau manteision tymor hwy, wedi'u cydbwysu â diwallu anghenion tymor byr?</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Cyngor wedi gosod amcanion sy'n ddigon uchelgeisiol ac sydd wedi'u cynllunio i yrru gweithgarwch ar draws y sefydliad.</li> <li>• Mae'r amcanion wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion tymor byr a thymor hir. Pan osodir amcanion dros amserlen fer i ganolig, fe'u gosodir yng nghyd-destun ystyriaethau neu uchelgeisiau tymor hwy.</li> </ul>
<p><b>Adnoddau a chyflawni: A yw'r Cyngor wedi ystyried sut y bydd yn sicrhau y gall gyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?</b></p>	

<p><b>A yw'r Cyngor wedi ystyried sut y gall roi adnoddau i'r amcanion llesiant?</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dyrannwyd adnoddau i sicrhau y gellir cyflawni'r amcanion dros y tymor byr a'r tymor canolig, ond mae'r Cyngor hefyd wedi ystyried adnoddau, risgiau a/neu sut y gall ddarparu adnoddau ar gyfer amcanion tymor hwy.</li> <li>• Mae'r Cyngor wedi dyrannu adnoddau i ddarparu buddion ataliol, lle mae'r rhain yn cael eu disgrifio yn ei amcanion llesiant.</li> </ul>
<p><b>A yw'r Cyngor wedi ystyried sut y gall weithio gydag eraill i gyflawni eu hamcanion?</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Cyngor yn defnyddio ei wybodaeth am amcanion/gweithgarwch partneriaid, ei berthnasoedd a'i drefniadau cydweithredol i sicrhau y gall gyflawni uchelgeisiau trawsbynciol.</li> </ul>
<p><b>Monitro ac adolygu: A yw'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i fonitro cynnydd a gwella sut mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant?</b></p>	
<p><b>Ydy'r Cyngor wedi datblygu mesurau a threfniadau monitro priodol?</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae mesurau perfformiad wedi'u cynllunio i adlewyrchu'r egwyddor datblygu cynaliadwy, e.e. drwy ganolbwyntio ar ganlyniadau sy'n torri ar draws ffiniau adrannol / sefydliadol ac sy'n sicrhau buddion lluosog (gan gynnwys ataliol) dros y tymor hwy.</li> <li>• Mae 'edau aur' a fydd yn caniatáu i'r Cyngor adrodd yn glir ac yn dryloyw ar gynnydd i gyflawni'r amcanion.</li> </ul>
<p><b>A yw'r Cyngor yn ceisio dysgu oddi wrth a gwella sut y mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i bennu ei amcanion llesiant?</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Cyngor yn dangos hunanymwybyddiaeth ac ymrwymiad i wella sut mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel y gall wneud hynny mewn ffordd ystyrlon ac effeithiol.</li> <li>• Mae'r Cyngor wedi dysgu o osod amcanion llesiant blaenorol a thrwy gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn fwy cyffredinol ac mae wedi gwella'r broses ar gyfer pennu ei amcanion llesiant newydd.</li> <li>• Mae gan y Cyngor neu'n bwriadu myfyrio ar sut y mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y cylch hwn o bennu amcanion llesiant.</li> </ul>







Archwilio Cymru  
1 Cwr y Ddinas  
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.  
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.